**COFNODION DRAFFT**

# PWYLLGOR DATBLYGIAD ECONOMAIDD EDC-03-99(min)

## Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor

**Dyddiad:** Dydd Mercher 14 Gorffennaf 1999

**Amser:** 09:00 hyd 12:15

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## Presennol

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Ron Davies (Cadeirydd) | Caerffili |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Val Feld | Dwyrain Abertawe |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Rhodri Morgan (YC) | Gorllewin Caerdydd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

*Swyddogion*

| | |
|---|---|
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr Materion Economaidd |
| Michael Cochlin | Cyfarwyddwr y Grðp Datblygiad Economaidd |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid |
| Emyr Roberts | Pennaeth Adain Cynllunio Ariannol |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Helen Usher | Clerc |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc (Dros Dro) |

Ni chafwyd ymddiheuriadau nac eilyddion.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Dogfennau ymgynghorol Strategaeth Datblygiad Cenedlaethol a'r Rhaglen Sengl**

**EDC-03-99(p.1W) a dogfennau Ymgynghorol**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu ystyried y tair dogfen ymgynghorol yn eu tro cyn mynd ymlaen i ystyried y camau nesaf yn y broses.

**Strategaeth Datblygiad Economaidd Cenedlaethol**

1.2 Eglurodd Rhodri Morgan fod y strategaeth wedi ei llunio gan y Tasglu Ewropeaidd fel sail ar gyfer ymgynghori. Yn dilyn ymgynghori, byddai drafft pellach yn cael ei gyflwyno ym mis Medi/Hydref ar gyfer ei ystyried yn ffurfiol gan y Cynulliad. Teimlai fod angen i'r ddogfen

bwysleisio thema sgiliau, hyfforddiant a sut i greu mwy o swyddi yng Nghymru yn hytrach na dibynnu ar fuddsoddiad mewnol.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd y byddai Papur EDC 03- 99 (p.12W) ynghylch ariannu yn cael ei drafod ar wahân ac felly gofynnodd am farn aelodau ar gynnwys cyffredinol y strategaeth ddatblygu.

1.4 Yr oedd y prif bwyntiau a gododd o'r drafodaeth fel a ganlyn:

- yr oedd y ddogfen yn hanfodol bwysig ac roedd llawer o waith eisoes wedi ei wneud arni. Rôl y pwyllgor oedd adeiladu ar hyn trwy osod y weledigaeth a’r blaenoriaethau;
- yr oedd angen datganiad o fwriad neu weledigaeth (yn debyg i'r hyn a gynhwyswyd yn nogfen Amcan 1) ac roedd angen synergedd rhwng y strategaeth a dogfennau eraill y rhaglen;
- gwelwyd diffyg un thema gadarnhaol megis datblygiad cynaliadwy;
- darlun bras iawn a roddwyd gan y ddogfen o sefyllfa Cymru ar hyn o bryd. Yr oedd angen rhoi hyn yng nghyd-destun hanes Cymru a’r traddodiad diwydiannol cryf;
- yr oedd gan y prifysgolion ran bwysig i'w chwarae er mwyn cyflawni’r lefelau twf i’w cyflawni;
- yr oedd angen sicrhau bod y targedau ar gyfer twf Cynnyrch Domestig Gros yn rhai y gellid eu cyflawni. Mae’n debyg nad yw twf o 4 y cant yn uwch na thwf y DU ar gyfartaledd yn realistig yn y tymor byr;
- yr oedd y gofynion ar gyfer creu swyddi yn wahanol i bob ardal;
- dylid ymdrin â thwristiaeth o dan fusnesau bach a pheidio â’i gynnwys ar wahân;
- yr oedd angen gweithio mewn partneriaeth ond ni ddylai hyn gael ei arwain bob tro gan lywodraeth genedlaethol/lleol, ar adegau fe allai gael ei arwain gan y sector preifat neu’r sector gwirfoddol;
- yr oedd amryw o faterion yn croestorri, ac roedd angen rhoi ystyriaeth ofalus i’r modd y bwrieidir gweithredu’r strategaeth;
- yr oedd angen cynnwys materion gofal plant a iechyd mewn perthynas â gweithgaredd economaidd;
- yr oedd y targedau a osodwyd yn eang iawn ac roedd angen iddynt fod yn fanylach er mwyn sicrhau nad oedd llwyddiannau mewn rhai meysydd yn cuddio problemau mewn meysydd eraill;
- dylid gosod pwyslais ar lefelau cyflog ac roedd angen cynnal ymchwil pellach ar faterion y farchnad lafur;
- croesawyd y pwyslais ar fusnesau bychain a’r ystyriaeth i ariannu risg gan gynnwys banc datblygiad cenedlaethol;
- yr oedd gwaith pellach ar droed ar astudiaethau sylfaenol;
- hyd yn oed pe bai’r targedau yn cael eu gwireddu byddai bwlch mawr yn dal i fod rhwng Gorllewin Cymru a’r Cymoedd a gweddill Cymru.

*Crynodeb y Cadeirydd*

1.5 Wrth grynhoi diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd yn ymwneud â’r bartneriaeth am eu gwaith caled, a diolchodd i'r aelodau am y drafodaeth adeiladol. Cafwyd consensws mai’r prif themâu i’w hystyried oedd y canlynol:

- yr oedd angen un thema strategol ar y ddogfen ac roedd angen nodi’r blaenoriaethau’n glir;
- yr oedd angen cynnwys y prifysgolion gan fod ganddynt rôl hanfodol i'w chwarae wrth ddatblygu a meithrin busnesau brodorol;
- yr oedd angen edrych eto ar y modd yr oedd twristiaeth yn cael ei drin;
- yr oedd angen gosod targedau ond roedd angen iddynt fod yn rhai y gellid eu cyfiawnhau a’u cyflawni a dylent adlewyrchu’r anghyfartaledd o fewn Cymru;
- dylid cynnwys materion cymdeithasol gyda phwyslais ar iechyd a gofal plant;
- yr oedd angen strategaeth ar gyfer gweithredu, ac roedd yn hanfodol adnabod pa gyrff fyddai’n rhoi arweiniad ym mhob maes (cyhoeddus, preifat, gwirfoddol) a’u cynnwys yn y gwaith.

**Amcan 1**

1.6 Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth trwy ddweud ei fod o'r farn bod y bennod ar ddatblygiad busnes wedi’i hysgrifennu’n dda. Yr oedd angen mwy o waith ar y cydbwysedd gwledig/trefol ac roedd angen gwaith pellach ar sut y gellid ymdrin a phroblemau’r cymoedd. Yr oedd angen i themâu cyfleon cyfartal a themâu eraill sy’n berthnasol i bob maes redeg trwy’r ddogfen.

1.7 Yr oedd y prif bwyntiau a gododd o’r drafodaeth fel a ganlyn:

- yr oedd angen amlygu sut i adeiladu sylfaen gadarn;
- yr oedd angen i ddatblygiad busnes gydnabod materion cymdeithasol wrth ystyried anghenion cyflogaeth;
- yr oedd angen troi dysgu am oes yn realiti;
- dylid cynnwys amryw o elfennau Amcan 3 yn Amcan 1;
- yr oedd angen ehangu’r adran ar dwristiaeth;
- yr oedd undebau credyd yn bwysig ar gyfer adfywiad cymunedol;
- yr oedd angen ymgynghori yng ngogledd Cymru;
- yr oedd lle ar gyfer datblygu maes opto-electroneg, lle’r oedd Cymru yn arwain y byd. Roedd technoleg o'r fath yn golygu bod y rhannau hynny o Gymru a arferai gael eu hystyried yn ardaloedd ynysig bellach o fewn cyrraedd. Ond roedd angen hyfforddiant effeithiol er mwyn gwireddu hyn.

*Crynodeb y Cadeirydd*

1.8 Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r drafodaeth:

- efallai y bydd angen i'r pwyslais newid er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir i'r Strategaeth Datblygiad Economaidd Cenedlaethol;
- yr oedd angen cynnwys cynigion mwy penodol yn y dogfennau;
- dylai’r pecynnau thematig gynnwys pecynnau rhanbarthol (yn enwedig ar gyfer y Cymoedd);
- dylid ymgorffori cynlluniau dogfen Amcan 3 yn nogfen Amcan 1;
- yr oedd angen cynhyrchu strategaeth ar gyfer gweithredu (sut i roi’r strategaeth ar waith a phwy fyddai’n gweithredu'r strategaeth);
- yr oedd angen ystyried isadeiledd meddal a chaled.

**Amcan 3**

1.9 Gofynnodd y Cadeirydd am dynnu cyfeiriadau at y Dywysogaeth o'r ddogfen, ond fel arall teimlai fod y cynnwys yn ardderchog.

1.10 Yr oedd y prif bwyntiau a gododd o’r drafodaeth fel a ganlyn:

- yr oedd angen i’r ddogfen ymdrin â sut i godi hyder pobl Cymru, yn enwedig y rhai hynny oedd heb fawr ddimdisgwyliadau (neu ddim o gwbl);
- yr oedd angen ystyried y cydbwysedd rhwng hyfforddiant oedd yn cael ei arwain gan y cyflenwad a hyfforddiant oedd yn cael ei arwain gan y galw;
- yr oedd angen rhoi mwy o flaenoriaeth i ddysgu am oes;
- os oedd yno strategaeth ar gyfer annog rhai sectorau yna gallai darparwyr hyfforddiant gynllunio ymlaen a sicrhau bod y galw yn cael ei ddiwallu. Yr oedd hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Iwerddon.

*Crynodeb y Cadeirydd*

1.11 Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb:

- yr oedd angen sicrhau bod y strategaethau a osodwyd ar gyfer rhaglenni Amcan 1 ac Amcan 3 yn gymathus;
- yr oedd angen rhoi ystyriaeth bellach i’r mecanweithiau ar gyfer cyplysu galw a chyflenwad ar gyfer hyfforddiant.

**Gwaith pellach**

1.12 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r modd yr oedd yn dymuno symud y gwaith yn ei flaen. Cafwyd consensws ar y canlynol:

- dylid gadael aelodau'r Tasglu i ymgynghori gyda'u hetholwyr;
- yr oedd angen cynnal trafodaethau gyda phobl oedd yn meddu ar drosolwg o'r strategaethau, a allai gynnig cyngor ar faterion oedd yn croesi sawl maes, a rhai oedd wedi cael profiad o weithredu strategaethau o'r fath (ee o'r Iwerddon, Glannau Merswy);
- dylid cynnal dau neu dri cyfarfod cyhoeddus yn yr ardal Amcan 1 gan wahodd amrediad o gyrff i gymryd rhan yn y drafodaeth.

1.13 Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb:

- ni fyddai'r Pwyllgor yn dyblygu gwaith partneriaid ond byddai'n canolbwyntio ar y trosolwg, blaenoriaethau, materion oedd yn croestorri a dulliau gweithredu.

**CAM GWEITHREDU:**

1.14 Swyddogion i ystyried pwy ddylai gael eu gwahodd i ymuno â thrafodaethau'r pwyllgor.

**Cam gweithredu: Michael Cochlin**

**Eitem 2: Ystyried blaenoriaethau ar gyfer Cyllideb y Cynulliad**

**EDC- 03-99(p.2W) EDC-03-99(p.12W)**

2.1 Yn gyntaf rhoddwyd ystyriaeth i Bapur EDC-03-99(t.12) yn ymwneud â chronfeydd strwythurol y Gymuned Ewropeaidd ac yna ystyriwyd papur y gyllideb (EDC-03-99(t.2)).

2.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

*Cronfeydd strwythurol*

- cwestiynwyd y ffigwr o £40 miliwn yn y gyllideb a gynhwyswyd yn y tabl yn y papur gan nad oedd yn cyfateb i ffigyrau'r gyllideb sylfaenol, sef £19 miliwn, a roddwyd yn y tabl yn Atodiad 1.3 y papur cyllideb (EDC-03-99(p.2W));
- amcangyfrif oedd y ffigwr o £40 miliwn y flwyddyn wedi'i seilio ar gyfartaledd y gwariant yn hanesyddol ac nid ar ffigwr o'r gyllideb. Dylai'r tabl a'r troednodiadau fod wedi

gwneud hynny'n fwy clir;
- eglurwyd bod gwariant blynyddoedd y gorffennol ar raglenni'r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn is na'r ddarpariaeth gan fod prosiectau wedi symud yn eu blaenau yn arafach na'r hyn a ragwelwyd. Yr oedd y symiau na chafodd eu gwario mewn blynyddoedd blaenorol yn cael eu cadw gan y Trysorlys ond roedd yn bosibl i'w tynnu lawr er mwyn ategu darpariaeth y gyllideb pe bai angen;
- yn hanesyddol yr oedd y rhan fwyaf o wariant y DU ar raglenni Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop wedi tueddu i ddigwydd tua diwedd y rhaglen. Yr oedd y Gymuned Ewropeaidd yn ceisio gwastatau patrymau gwariant ac fe allai hyn effeithio ar ofynion ariannu'r dyfodol;
- nid oedd yr amserlen ar gyfer Arolwg Gwariant Cynhwysfawr wedi ei chyhoeddi hyd yma, ond mae'n fwyaf tebygol na fydd y canlyniadau (gan gynnwys sylfaen ar gyfer 2001-02) yn wybyddus tan hydref 2000. Gallai hyn achosi problemau amseru ar gyfer y rownd gyllidebol nesaf;
- yn y rhaglenni newydd, y gwariant a ragwelwyd ar gyfer Amcan 1 oedd £50 miliwn, £70 miliwn, £100 miliwn, £155 miliwn ar gyfer y blynyddoedd 2000-01 hyd 2003-04. Nid oedd hyn yn cynnwys cyllid cyfatebol. (Ni fyddai hwn yn ymddangos o dan Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop ond oddi mewn i'r rhaglen berthnasol);
- yr oedd angen dadansoddiad o'r gyllideb yn dangos y rhaglenni newydd a'r hen raglenni ar wahân;
- byddai cyfrannau o grant yn cael eu dyrannu unwaith y byddai targedau a gytunwyd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu cyflawni;
- byddai angen i'r Adran Addysg a Chyflogaeth ddod o hyd i arian ar gyfer gwariant o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop;
- yr oedd yr Adran Addysg a Chyflogaeth wedi awgrymu y dylid trosglwyddo cyfrifoldeb am weinyddu Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru i'r Cynulliad. Ni fyddai hyn yn yn digwydd oni bai fod yr holl arian cysylltiedig yn cael ei drosglwyddo;
- nid Llywodraeth y DU oedd yn pennu dyraniad adnoddau Amcan 1 i Gymru ond y Gymuned Ewropeaidd. Y cyfanswm oedd 1.7 biliwn Ewro a oedd yn gyfwerth â £1.14bn yn ôl y cyfraddau cyfnewid o £0.67 i 1 Ewro;
- nid oedd cwymp yng ngwerth yr Ewro yn newyddion da i Gymru gan fod hynny'n golygu bod arian Ewrop yn gostwng mewn gwerth.

*Cyllideb*

- cwestiynwyd dyrannu i RSA a Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd;
- eglurwyd bod RSA yn cael ei arwain gan y galw a bod y gyllideb yn adlewyrchu'r galw a ragwelir am daliadau (ac y byddai hyn yn cael ei adolygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn). Ni wrthodwyd grant i unrhyw gwmni oherwydd cyfyngiadau cyllidebol;
- er bod Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn cael ei dirwyn i ben yr oedd yno ymrwymiadau gweddilliol yr oedd angen eu cyflawni. Byddai gan y Pwyllgor y cyfle i drafod y materion hyn wrth ystyried trefniadau ar gyfer corff i olynu Corfforaeth Datblygu

Bae Caerdydd yn yr hydref;

- yr oedd angen rhoi mwy o ystyriaeth i safbwynt Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop yng ngoleuni trafodaeth gynharach y pwyllgor;
- gellid defnyddio Cronfa Ffordd i Ffyniant ar gyfer cyllid cyfatebol;
- yr oedd yn ymddangos fod yno nifer fawr o gyllidebau a chynlluniau unigol.

*Crynodeb y Cadeirydd*

2.3 Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb:

- yr oedd angen mireinio cyllidebau Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop i ddangos y rhaglenni hen a newydd ar wahân. Byddai hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried a oedd y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol;
- byddai’r Pwyllgor yn ystyried y gyllideb eto ym mis Medi.

**CAM GWEITHREDU**

2.4 Swyddogion i ddarparu:

- manylion dyraniad adnoddau Amcan 1 o fewn y DU;
- dadansoddiad o wariant Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop wedi'i rannu yn ôl rhaglenni hen a newydd.

**Cam gweithredu: Michael Cochlin**

**Eitem 3 ar yr Agenda 3: Adroddiad Ysgrifennydd y Cynulliad EDC- 03- 99 (p.3W)**

3.1 Nodwyd Adroddiad Ysgrifennydd y Cynulliad gan y Pwyllgor.

**Eitem 4 ar yr Agenda 4: Ymgynghori gyda Busnes EDC-03- 99 (p.4W)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor y ffordd fwyaf effeithiol o symud y mater hwn yn ei flaen. Teimlai Aelodau y dylid ffurfio cyswllt ffurfiol trwy’r Cabinet a phwyllgorau eraill y Cynulliad ond y dylid hefyd sefydlu cysylltiadau ad hoc anffurfiol gyda’r sector preifat a’r undebau llafur. Dylai’r Pwyllgor allu gofyn i gyrff fynychu ar sail ffurfiol neu anffurfiol. Dylid rhoi cynlluniau ar waith er mwyn ymdrin â’r trefniadau hyn.

*Crynodeb y Cadeirydd*

4.2 Wrth grynhoi gwnaed y sylwadau canlynol gan y Cadeirydd:

- yr oedd angen am strwythur ffurfiol;
- er hynny yr oedd angen am drefniadau ad hoc ac anffurfiol yn ogystal;
- gofynnwyd i swyddogion baratoi cynllun oedd yn ymdrin â threfniadau ar gyfer ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

**CAM GWEITHREDU**

4.3 Swyddogion i gynhyrchu cynigion diwygiedig.

**Cam gweithredu: Derek Jones**

**Eitem 5: Blaenraglenni Gwaith EDC- 03- 99 (p.5W) (p.6W)**

**(p.7W) (p.8W)**

**(p.9W) (p.10W)**

5. 1 Nododd y Cadeirydd y Blaenraglenni Gwaith. Awgrymodd y byddai'r Cadeirydd newydd am eu hystyried ymhellach felly gohiriwyd yr eitem.

**Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 30 Mehefin EDC-02- 99 (min)**

6.1 Cododd Val Feld gwestiwn ynghylch eitem 2.5 gan ofyn pryd fyddai manylion yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad CSR diwethaf ar gael. Cadarnhaodd swyddogion eu bod bron yn barod ac y byddent yn cael eu hanfon cyn hir.

6.2 Codwyd cwestiwn ynglþn â cham gweithredu oedd heb ei gyflawni mewn perthynas â pharagraff 2.8. Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Swyddogion y byddai'r disgrifiad cam wrth gam o'r hyn yr oedd angen ei wneud a phryd, ar gael yn gynnar ym mis Medi.

**Unrhyw fusnes arall**

7.1 Cynigiodd Phil Williams bleidlais o ddiolch i'r Cadeirydd am y ffordd effeithiol yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd y Pwyllgor. Eiliwyd y cynnig hwn gan Alun Cairns a'i gytuno gan y Pwyllgor.

7.2 Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau’r Pwyllgor gan ddweud ei fod wedi mwynhau ei gyfnod fel Cadeirydd ac y byddai’n parhau’n Aelod o’r Pwyllgor ac yn gobeithio y byddai’n parhau i allu cyfrannu at waith y Pwyllgor.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor 15 Gorffennaf 1999**